# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Llun, 21 Mawrth 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, C.James, R.Mizen, S.Paddison, S.H.Reynolds, R.L.Taylor a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, C.Owen, M.Shaw, S.Brennan, J.Woodman-Ralph a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac S.Pursey |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion canlynol y cyfarfodydd blaenorol fel cofnod cywir:

- 24 Tachwedd 2021
- 15 Rhagfyr 2021
- 5 Ionawr 2022
- 12 Ionawr 2022
- 9 Chwefror 2022
- 28 Chwefror 2022

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem ganlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Model Gwasanaeth Arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid a Desgiau Arian Parod y Ganolfan Ddinesig

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o fodel gwasanaeth arfaethedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Desgiau Arian Parod ar gyfer pan fydd yr adeiladau'n ailagor i'r cyhoedd.

Tynnodd y Prif Swyddog Digidol sylw at y ffaith bod y Canolfannau Dinesig wedi'u cau ers dechrau'r pandemig, a ddaeth â newid mawr i'r ffordd roedd gwasanaethau'r cyngor yn gweithredu ac yn cael eu darparu; roedd gan y cyngor fwy o bresenoldeb ar-lein, ac roedd nifer mawr o bobl wedi defnyddio'r gwasanaethau a ddarparwyd ar-lein. Nodwyd bod cyfyngiadau Llywodraeth Cymru wedi dechrau llacio, ac roedd y cyngor bellach mewn sefyllfa i ddechrau ystyried sut y gellid ailagor y Canolfannau Dinesig i'r cyhoedd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y model yn disgrifio'r modd y bwriedid gweithredu'r Gwasanaethau Cwsmeriaid wrth symud ymlaen o ran ymholiadau wyneb yn wyneb, yn ogystal â chynlluniau i wella rhai o'r gwasanaethau digidol yn y meysydd Gwasanaethau Cwsmeriaid; bydd hyn yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd, nad oedd ganddynt y dechnoleg addas gartref, gael mynediad at rai o wasanaethau ar-lein y cyngor.

Dywedwyd bod cynlluniau ar y cyd i ddechrau ailagor Canolfannau Dinesig i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2022; bydd hyn yn cyd-fynd â chyfyngiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, a chynhelir yr asesiadau risg priodol.

Cododd yr Aelodau bryderon ynglŷn â chau'r desgiau arian parod, gan dynnu sylw at y ffaith y gall annog y cyhoedd i beidio ag ymweld â'r Canolfannau Dinesig, yn ogystal â'r posibilrwydd o gael effaith ar nifer y bobl sy'n ymweld â chanolau trefi. Ychwanegodd yr Aelodau fod rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb yn hanfodol, ac y dylent aros fel rhan o'r model gwasanaeth. Esboniodd swyddogion fod y desgiau arian parod wedi bod ar gau ers tua dwy flynedd, a bod y cyngor wedi rhoi dulliau amgen o ddarpariaeth ar waith; er enghraifft, gallai preswylwyr ddefnyddio'u swyddfeydd post lleol yn eu canolau trefi eu hunain a'u cymunedau lleol i dalu eu biliau. Nodwyd, wrth ailagor yr adeiladau, fod yn rhaid i Swyddogion gofio'r ffaith, er na fyddai unrhyw gyfyngiadau ar waith, fod angen i'r adeiladau weithredu ar sail asesiad risg o hyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai gwahanol gamau i ailagor yr adeiladau; hwn oedd cam cyntaf ailagor ar gyfer y cyfamser. Soniwyd y gallai Swyddogion fonitro effaith a'r galw am ddesgiau arian parod

yn y cam hwn; a phe bai'r galw yno, byddai Swyddogion yn meddwl am sut y gellid eu hailsefydlu.

Cynigiodd yr Aelodau y byddai'n fwy buddiol ailsefydlu'r gwasanaeth desg arian parod yng ngham cyntaf ailagor yr adeiladau, gan y byddai hyn yn caniatáu i'r tîm gasglu'r wybodaeth a'r data sydd eu hangen i fonitro'r defnydd ac i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Mewn perthynas ag ymholiadau cyffredinol, nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd y bydd cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at y sianeli cyswllt sydd ar gael ar gyfer y meysydd gwasanaeth perthnasol; ac os nad oedd cwsmer yn gallu cwblhau'r trafodiad, yna bydd Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cynnig cymorth. Gofynnodd yr Aelodau am esboniad pellach mewn perthynas â'r datganiad hwn, a gofynnodd i Swyddogion am sicrwydd y byddai staff yn helpu'r rheini na allent ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein neu nad oeddent am eu defnyddio.

Esboniwyd bod 'methu â chwblhau'r trafodiad' yn cyfeirio at y rheini nad oeddent yn gallu defnyddio'r gwasanaeth cymorth digidol a fyddai ar waith; byddai'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn rhoi cymorth i'r rheini nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth hwn neu na allent ei ddefnyddio am unrhyw reswm penodol. Esboniodd swyddogion y byddai'r Gwasanaethau Cwsmeriaid yn ymateb yn uniongyrchol i gwsmeriaid ag ymholiadau a chwestiynau cyffredinol, fel y byddent fel arfer yn ei wneud cyn y pandemig. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r gwasanaeth cymorth digidol yn helpu i wella'r ôl troed digidol yn y meysydd Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y Canolfannau Dinesig; ac roeddent ar waith ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a oedd yn gallu defnyddio'r mathau hyn o wasanaethau ar-lein.

Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd adolygu'r model gwasanaeth yn barhaus, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben a'i fod er budd y cyhoedd.

Felly, cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad ffurfiol canlynol i'r argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

'Argymhellir bod y model gwasanaeth fel y'i disgrifir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cael ei gymeradwyo o fis Ebrill 2022 ond y dylid ei adolygu am chwe mis'.

Penderfynwyd bod y pwyllgor o blaid y gwelliant i'w ystyried gan y Cabinet.

3. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

**RESOLVED:** that pursuant to Section 100A(4) and (5) of the Local Government Act 1972, the public be excluded for the following items of business which involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the above Act.

4. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Rownd 2 Cronfa Codi'r Gwastad y DU (CCG) - Cyllideb i Benodi Ymgynghorwyr Allanol i Gefnogi Ceisiadau Castell-nedd Port Talbot

Rhoddwyd adroddiad i'r Aelodau ynghylch rownd 2 CCG y DU a'r gyllideb i benodi ymgynghorwyr allanol i gefnogi ceisiadau Castell-nedd Port Talbot.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**